**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, OCR, Pearson a CBAC**

**Hysbysiad i Ganolfannau**

# Athrawon sy'n rhannu deunydd asesu di-arholiad a gwaith ymgeiswyr

Mae rhannu deunydd asesu enghreifftiol at bwrpasau cyfeirio yn annog arfer addysgu da. Fodd bynnag, **rhaid** i athrawon gadw rheolaeth a goruchwyliaeth agos o'r gwaith ar gyfer cydrannau asesu di-arholiad a gynhyrchwyd gan gyn-ymgeiswyr o flwyddyn flaenorol sy'n cael eu dosbarthu, ac o'r asesiadau di-arholiad enghreifftiol sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn defnyddio deunydd o'r fath ar gyfer eu gwaith eu hunain.

**Rhaid** i ganolfannau gadw deunydd asesu di-arholiad byw a gwaith ymgeiswyr yn ddiogel ac yn gyfrinachol trwy gydol yr amser y maent yn eu meddiant. **Ni ddylai** staff addysgu rannu asesiadau di-arholiad byw ag ymgeiswyr na rhannu gwaith ymgeiswyr ar gyfryngau cymdeithasol.

(Mae asesiad di-arholiad byw yn cael ei ddiffinio fel unrhyw waith ar destun a bennir gan naill ai gorff dyfarnu neu'r ganolfan ar gyfer cyfres arholiadau cyfredol neu'r dyfodol, hyd yn oed os cwblhawyd y gwaith mewn blwyddyn flaenorol.)

**Rhaid i athrawon hysbysu ymgeiswyr bod copïo unrhyw ddeunydd asesu di-arholiad er mwyn ei gyflwyno fel eu gwaith eu hunain yn achos o gamymddwyn. Ni ddylai** ymgeiswyr gyflwyno gwaith nad yw wedi ei gynhyrchu ganddyn nhw eu hunain. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **Adran 9** cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad.*

**Ni ddylai** athrawon annog ymgeiswyr i gynorthwyo ei gilydd wrth gynhyrchu gwaith.

**Rhaid** i athrawon atgoffa ymgeiswyr **na ddylent** rannu eu gwaith ag eraill trwy unrhyw gyfrwng: **ni ddylent**, er enghraifft, rannu eu gwaith ar gyfryngau cymdeithasol (http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents).

Lle bo'r fanyleb yn caniatáu gwaith grŵp mewn rhai o'r aseiniadau, dylid cyfeirio at **baragraff 4.5** cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad* a manyleb y corff dyfarnu.

**Rhaid** defnyddio deunydd enghreifftiol a gynhyrchir gan gorff dyfarnu yn unol â chyfarwyddiadau'r corff dyfarnu. Os oes unrhyw amheuaeth gan athrawon, dylent gysylltu â'r corff dyfarnu am gyngor ac arweiniad penodol i bwnc.

Ni ddylai athrawon na chanolfannau, dan unrhyw amgylchiadau, ddefnyddio tasgau a dogfennau asesu di-arholiad at unrhyw bwrpas ar wahân i'w cyflwyno i'w hymgeiswyr.  Bydd unrhyw ymgais ar ddefnyddio deunyddiau asesu di-arholiad er mwyn elwa'n fasnachol, neu dorri cyfrinachedd y deunyddiau hynny, yn cael ei drin fel camymddwyn.

©CGC 2019 Yn weithredol o 1 Medi 2019